# Cynllun Cydraddoldeb Sengl 2010/11

## Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

CPS Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

# Cynllun Cydraddoldeb Sengl 2010/11
# Ymgynghoriad ac Ymlyniad

Trwy ymlyniad rydym yn golygu cynnwys rhanddeiliaid o'r cychwyn wrth ddatblygu ein cynllun a thrwy gydol ei ddrafftiau amrywiol. Trwy ymgynghoriad rydym yn golygu gofyn i bobl am eu barn ar ein cynigion sydd i'w cynnwys yn ein cynllun.

## Sut y gwnaethom ennyn ymlyniad ac ymgynghori â chymunedau

- Fe wnaethom sefydlu Bwrdd Prosiect ar y Cyd yn cynnwys sefydliadau cymunedol yn cynrychioli pob maes cydraddoldeb.
- Fe wnaethom sefydlu Grŵp Ymlyniad Anabledd yn cynnwys pobl anabl o'r gymuned a chyrff perthnasol eraill.
- Fe wnaethom gynnal gweithdy i ystyried y ddogfen ymgynghorol gyhoeddus.
- Fe wnaethom redeg proses ymgynghori 12 wythnos ac yn ystod y cyfnod hwnnw roedd aelodau o'r cyhoedd yn medru rhoi eu sylwadau trwy e-bost neu'r post.
- Fe wnaethom wahodd pob sefydliad ar gronfa ddata Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i roi sylwadau ar y ddogfen ymgynghorol gyhoeddus.
- Fe wnaethom wahodd Fforwm Atebolrwydd Cymunedol y CPS i roi sylwadau ar y ddogfen ymgynghorol gyhoeddus.
- Fe wnaethom wahodd aelodau o'n fforymau ymlyniad rhanbarthol (Grŵp) ac Ardal i roi sylwadau ar y ddogfen ymgynghorol gyhoeddus.

## Sut y gwnaethom ni ennyn ymlyniad ac ymgynghori â staff

- Cynrychiolwyd pob un o dair Rhwydwaith Staff y CPS, sef y Rhwydwaith Staff Anabledd, y Rhwydwaith Staff LGBT a Chymdeithas Ddu Genedlaethol Erlyn y Goron, ar y Bwrdd Prosiect ar y Cyd. Yn ychwanegol, roedd gan y

Rhwydwaith Staff Anabledd gynrychiolaeth hefyd ar y Grŵp Ymlyniad Anabledd.

- Bu'r Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn gweithio gyda chynrychiolwyr y rhwydwaith staff i edrych ar ffyrdd effeithiol o ymgynghori ag aelodau'r rhwydwaith yn ystod y prif gyfnod ymgynghori 12 wythnos.
- Roedd holl staff y CPS yn medru mynd i mewn i'r ddogfen ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod y cyfnod ymgynghori o 12 wythnos ac anfon eu sylwadau ar e-bost.
- Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori gydag undebau llafur y CPS, a gwahoddwyd hwy hefyd i roi sylwadau ar y ddogfen ymgynghorol.
- Rhoddwyd anogaeth hefyd i reolwyr drafod y ddogfen ymgynghorol gyhoeddus gyda'u staff yn ystod cyfarfodydd tîm.
- Fe wnaethom ddefnyddio canlyniadau pum grŵp ffocws staff rhanbarthol a gynhaliwyd yn 2008 fel sail i'r cynllun.

## Ymgynghori arall

Fe wnaethom hefyd ymgynghori â'n partneriaid yn y System Gyfiawnder Troseddol a gydag asiantaethau eraill:

- Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu
- Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth
- Y Swyddfa Gartref
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Asiantaeth Wella Genedlaethol yr Heddlu
- Swyddfa Ddiwygio Cyfiawnder Troseddol

## Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Denodd ein dulliau ymgynghori amrywiol nifer fawr o ymatebion manwl a sylweddol, yn bennaf gan sefydliadau cymunedol a gwirfoddol ond hefyd gan unigolion. Mae log cynhwysfawr o'r holl ymatebion ar gael gan yr Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gais. At hynny, mae adroddiad ar ganlyniadau'r gweithdy ymgynghorol a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2010 ar gael hefyd.

Defnyddiwyd llawer o'r ymatebion i lunio'r cynllun terfynol a'r cynllun gweithredu. Ar yr un pryd, roedd llawer o'r syniadau a roddwyd gan bobl yn syniadau defnyddiol am y ffordd y gallwn weithredu'r camau sydd eisoes yn y cynllun, a byddwn yn ystyried y rhain dros y flwyddyn sydd i ddod wrth i ni weithredu'r cynllun. Yn ychwanegol, roedd rhai cynigion gan ymatebwyr yn ymwneud â swyddogaethau asiantaethau eraill e.e. gwasanaeth yr heddlu.

O ystyried yr amserlen dynn ar gyfer y cynllun nid ydym wedi medru ymateb i'r holl gynigion a gyflwynwyd. Nid yw hyn yn golygu nad yw'r cynigion hynny yn bwysig i ni, a byddwn yn sicrhau y bydd y cynigion nad ydynt yn cael sylw yn y cynllun hwn yn cael eu defnyddio fel sail i'n cynllun nesaf ar gyfer 2011-14.

### Trosolwg cryno o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ac ymgynghoriad y staff

Nodir y themâu cyffredinol a drafodir yn yr ymatebion isod a thynnir sylw at y problemau allweddol a godwyd (DS nid yw'r rhestr hon yn holl gynhwysol).

**Ymatebion cyffredinol**

- Ymgorffori egwyddorion pwysig fel y model cymdeithasol o anabledd a pherthnasedd 'rhyng-gysylltiadau' h.y. chwalu'r rhwystrau rhwng meysydd ac adlewyrchu profiadau pobl o fywyd mewn gwirionedd.

- Datblygu gweithio cydgysylltiedig mewn perthynas â strategaethau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd mewn partneriaeth gyda'r Gwasanaeth Heddlu, HMCPSI, y Gwasanaeth Tystion, y Gwasanaeth Llysoedd a'r Cwnsleriaid.

**Ymatebion yn berthnasol i erlyniadau, dioddefwyr a thystion**

- Ystyried ymestyn troseddau casineb i fonitro troseddau yn erbyn grwpiau penodol e.e. ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
- Ymestyn y ffocws ar baneli craffu i achosion erlyn Trais yn Erbyn Menywod.
- Cyhoeddi ystadegau blynyddol yn rhoi manylion yr achosion cymorth i gyflawni hunanladdiad a gyfeiriwyd at y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.
- Monitro effaith a gweithrediad unrhyw gyfarwyddyd newydd a gyhoeddir ar ddefnyddio adran 146. (Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 – gan gynyddu dedfrydau am achosion a waethygwyd oherwydd cysylltiad ag anabledd neu gyfeiriadedd rhywiol).
- Cydnabod bod troseddau a waethygir oherwydd crefydd hefyd yn cwmpasu troseddau yn erbyn pobl sydd heb gred grefyddol.
- Ystyried rôl, cylch gorchwyl a'r peirianweithiau i'w defnyddio gan gyfryngwyr a chyhoeddi cyfarwyddyd.

**Ymatebion yn berthnasol i gyflogaeth a hyfforddiant**

- Defnyddio pobl o grwpiau cymunedol lleol a sefydliadau cymunedol i gefnogi hyfforddiant mewnol neu i ddarparu hyfforddiant i staff.
- Gwella ymateb sefydliadol i broblemau staff Du a Lleiafrifoedd Ethnig, yn arbennig yng nghyswllt staff mewn Ardaloedd sy'n teimlo eu bod yn ynysig pan fydd y gyfran o weithwyr Du a Lleiafrif Ethnig yn isel.
- Sicrhau bod ceisiadau am addasiadau rhesymol yn cael eu trin yn effeithiol a chyflym.
- Sicrhau bod absenoldeb sy'n gysylltiedig ag anabledd yn cael ei gofnodi ar wahân i absenoldeb oherwydd salwch.
- Darparu man cyswllt penodedig i gwynion staff sy'n berthnasol i bob maes (hyrwyddwyr Cydraddoldeb posibl).

- Cynnal ymgyrch urddas yn y gwaith sy'n ymdrin â'r gwahanol broblemau y mae hyn yn eu codi i grwpiau gwahanol o bobl (a sicrhau rhyng-gysylltiadau).
- Rhoi hyfforddiant i sicrhau bod erlynyddion yn deall y problemau sy'n gysylltiedig ag anawsterau dysgu.
- Darparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth rheolwyr llinell o faterion cydraddoldeb, gan gynnwys ymddygiad ag agweddau.
- Dileu'r oedran ymddeol diofyn.

**Ymatebion yn berthnasol i weithgareddau eraill y CPS**

- Cefnogi anghenion gofalyddion, fel gweithwyr, ac fel dioddefwyr a thystion, yn y broses erlyn.
- Ymwneud â sefydliadau'r bobl anabl eu hunain, nid dim ond sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i bobl anabl.
- Sicrhau bod yr ymlyniad yn cyrraedd yr ystod ehangaf o bobl yn y cymunedau ac osgoi dibynnu ar 'arweinwyr' cymunedol neu grefyddol a all weithredu fel ceidwaid pyrth sy'n dewis a dethol.
- Ceisio ymwneud mwy â phobl ifanc gan gynnwys ymwneud â'r rhai nad ydynt mewn addysg prif-ffrwd.
- Dadansoddi data monitro Du a Lleiafrif Ethnig yn ôl grŵp ethnig (gan gynnwys Gwyddelod) a dadelfennu data ar lefel Grŵp ac Ardal.
- Gweithio gyda'r heddlu i wella hyfforddiant a'r gefnogaeth barhaus i ganolfannau adrodd trydydd parti.
- Codi ymwybyddiaeth o broblemau yn ymwneud â byddardod ymhlith staff y CPS.
- Datblygu cyfarwyddyd ar yr amrywiaeth o wahanol fathau o ddulliau cyfathrebu ar gyfer cyfathrebu gyda phobl gydag anableddau gwahanol.
- Cynnal ymgynghoriad gweithredol gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac ystyried sut i gynnwys gweithwyr mudol a Sipsiwn a Theithwyr sy'n ddioddefwyr neu'n dystion.
- Ystyried problemau sy'n benodol i ardaloedd gwledig.

- Sicrhau bod negeseuon i hyrwyddo agweddau positif at bobl anabl yn gyson a defnyddio delweddau positif o bobl anabl yn fwy eang ac nid mewn llenyddiaeth am anabledd yn unig.

Gallwch lawrlwytho rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn
mewn PDF Adobe Acrobat ar wefan y CPS

**www.cps.gov.uk**

© 2010